Annwyl Cyng. Elwyn Jones 09 Awst 2022

Yng ngoleuni gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n ymwneud â 'chyflwyniad' byd-eang yr cwricwlwm RSE i mewn i ysgolion Gwynedd, dymunwn ddilyn trefn Cynghorau Gwynedd wrth alw am Gyfarfod Arbennig yn unol ag adran 4.12 o'r cyfansoddiad.

Byddem yn gobeithio eich bod yn ymwybodol o'r Adolygiad Barnwrol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn yr Uchel Lys. Er gwaethaf ymateb cyfryngau Llywodraethau Cymru mai dim ond *honiadau dramatig / sensational* neu/a *"chamwybodaeth"* (honiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyndyn hyd yma i ymhelaethu arnynt), eu hunain yn gamarweiniol. Nododd Mr Ustus Turner, yn eistedd yn y Queens Bench adran o'r Uchel Lys yn ei orchymyn dyddiedig 27 Mai 2022 (copi ynghlwm) :

*" Mae materion a godwyd gan yr hawlwyr yn cynnwys ystyriaeth cymhleth parthed materion cyfansoddiadol â chanlyniadau sylweddol iawn o bosibl i'r rhieni a phlant."*

Mae'r achos hwn yn peri pryder mawr i ni a'n hetholwyr ac mae o natur na all ei anwybyddu. Mewn datganiad a wnaed i'r Senedd ar 18 Mawrth 2021, dywedodd yr Arglwydd Ganghellor "*allan o 5,502 Adolygiad barnwrol Cart a ddaeth rhwng 2012 a 2019, dim ond 0.22% oedd yn llwyddiannus.*" Adolygiad Annibynnol o Gyfraith Weinyddol - Hansard - Senedd y DU. Dylasai hyn yddo'i hyn swnio clychau larwm, mae Adolygiadau Barnwrol yn brin, prin iawn, ac yn sicr tydynt ddim yn cael eu caniatau ar "honiadau dramatigl" a/neu "gamwybodaeth".

Wrth asesu a ddylid galw Cyfarfod Arbennig yn yr achos hwn ai peidio, rhaid cymryd i ystyriaeth y gallem ni fel y Cyngor, mor gynner a dechrau mis Medi, fod yn addysgu ( am y tro cyntaf mewn hanes, heb hawl rhieni i wahardd), cynnwys anghyfreithlon ac o bosib niweidiol i'n rhai mwyaf agored i niwed. Rhaid hefyd ystyried bod gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithlon o ofal i'w phlant ysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol fel cyflogwyr am diogelwch athrawon ac, yn amlach na pheidio yn y Llys, ceir y Cyngor yn ficeraidd atebol am niwed gafodd ei achosi i blant mewn ysgolion. Dywed adran 1.2.1 o'r cyfansoddiad:

*"[...] Mae pob Cynghorydd yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu rhanbarth etholiadol yn ogystal â phawb sy'n byw yng Ngwynedd. Dyletswydd pennaf cynghorwyr ydi i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w etholwyr, gan gynnwys y rhai na bleidleisiodd drostyn hwy."*

Mae'r materion rydyn ni'n eu codi yn real iawn ac yn faterion sy'n bwysig i'n hetholwyr a *prima facie*, y Llysoedd. Mae gan y materion rydyn ni'n eu codi "*ganlyniadau sylweddol iawn i'r rhieni a phlant*", yn ogystal ag i'n hathrawon, ein hetholwyr, a'r Cyngor ei hun yn y dyfodol agos

Ar ôl i'r Cyngor gael gwybod am ddifrifoldeb y materion a godwyd, teimlwn fod yna ddyletswydd ar y Cyngor, yn unol â'r cyfansoddiad, i archwilio ffeithiau'r achos a dylai alw Cyfarfod Arbennig cyn gynted a sydd yn ymarferol bosib o fewn 10 diwrnod gwaith a dim

mwy o ddyddiad y llythyr yma . Teimlwn ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn ystyried a chynllunio ar gyfer, o leiaf:

(a)Y canlyniadau posibl i'n plant (ac etholwyr yn gyffredinol) os ydym yn dilyn ynghyd â'r status quo a gweithredu cwricwlwm a allai fod yn anghyfreithlon, a (b) strategaeth rheoli difrod o ganlyniad posibl iawn y bydd y Llys yn dyfarnu fod gweithredu RSE yng Nghymru'n anghyfreithlon,
a (c) strategaeth o ran y materion posibl, faterion diogelu canlyniadol a potensial ar gyfer iawndal yn y dyfodol.

Yn gywir

Cyng. Louise Hughes

Cyng. Eryl Jones-Williams

Cyng. Angela Russell

Cyng. Gruff Williams

Cyng. Rob Triggs